


cwmpawd

*eglwys efengylaidd
gymraeg caerdydd*



Golygyddol

Gwynn Williams

Fel eglwys, ceisiwn gael pobl i gymryd Iesu Grist o ddifri. Bydd y rhan fwyaf o ddarllenwyr y cylchgrawn hwn, fwy na thebyg, yn gwybod am Iesu Grist. Yn gwybod iddo fyw ar wyneb y ddaear tua 2,000 o flynyddoedd yn ôl. Gwyddom hefyd iddo gael dylanwad aruthrol ar ein gwlad ni'r Cymry – ar ein diwylliant a'n hiaith. Ond a ydym yn ei gymryd o ddifri?

Mwy na thebyg eto fod gennym y parch mwyaf ato fel athro a ddysgai egwyddorion gwych megis 'câr dy gymydog' a 'cerwch eich gelynion', ac fel un a aeth o gwmpas yn gwneud daioni. Ond a ydym yn ei gymryd o ddifri?

Er enghraifft, gwnaeth honiad rhyfeddol ei fod yn fab Duw. Gwrthwynebiad ffyrnig Iddewon crefyddol ei ddydd i'r honiad hwnnw a arweiniodd at ei groeshoeliad. A ydym yn cymryd o ddifri honiad Iesu Grist ei fod yn berson dwyfol?

Dywedodd Iesu Grist iddo ddod i geisio ac i gadw'r colledig gan gyfeirio at y ddynoliaeth. A ydym ni o ddifri yn credu ein bod yn golledig, a beth yn union yw oblygiadau hynny?

Wedyn a ydym yn ei gymryd o ddifri pan ddywed iddo ddod i gadw'r colledig a gwneud hynny trwy farw ar y groes? A ydym yn cymryd o ddifri ei alwad i edifarhau a dod yn ddisgyblion iddo gan ddwyn ei groes?

Mae cynnwys y rhifyn hwn o'n cylchgrawn yn rhoi cyfle inni feddwl ymhellach ynglŷn â'r math yma o gwestiynau. Gobeithio y bydd o gymorth fel y gallwn ninnau hefyd ymuno â disgyblion cynnar yr eglwys a gymerodd Iesu Grist gymaint o ddifri nes eu bod yn medru dweud at 'bwy yr awn ni? Y mae geiriau bywyd tragwyddol gennyt ti'.

Os felly, beth am enghraifft bellach.

Methu'r nod

Iwan Davies

Ar ôl gêm derfynol ddigon siomedig, daeth Cwpan Rygbi'r Byd 2007 i ben gyda De Affrica (diolch byth) yn curo Lloegr. Wrth gwrs roedd tîm Cymru wedi dod adre wythnosau ynghynt ar ôl colli'n wael yn erbyn Fijî. Siom i'r tîm, siom enfawr i'r genedl ac – mae'n siŵr – siom hyd yn oed yn fwy i'r hyfforddwr, Gareth Jenkins, a gollodd ei swydd yn sgîl hynny.

Doedd hi ddim yn sioc i Jenkins golli ei swydd – nid yn unig oherwydd na chyrhaeddodd y tîm ei botensial o bell ffordd, ond am iddo ef ei hun gyhoeddi o flaen llaw, 'Judge me on the World Cup'. Fe gafodd ei farnu ar Gwpan y Byd, a derbyn y ffurflen P45 mewn maes parcio yn Ffrainc. Roedd ef am i bobl ei farnu ar sail ei waith, ond yn ôl y feirniadaeth doedd ei waith ddim yn cyrraedd y safon.

Yn yr un modd ry'm ni'n byw mewn cymdeithas lle mae geiriau fel 'canlyniadau', 'perfformiad' ac 'asesu' yn rhan amlwg o eirfa byd gwaith. Does dim llawer o swyddi lle nad oes rhyw arolwg safonau yn cymryd lle. A'r gwir yw,

yn wyneb y fath archwilio, ry'm ni gyd yn methu. Mae rhestr ciwio cleifion y gwasanaeth iechyd yn cynyddu, dyw pob plentyn ddim yn derbyn A* a dyw'r 10.21 i Paddington ddim wastad yn cyrraedd ar amser.

Ry'm ni gyd yn methu ar adegau. Methu yn ein lle gwaith a hefyd methu yn ein bywyd personol. Methu o ran bod yn garedig wrth ein cymdogion; methu yn ein dyletswyddau teuluol; methu yn ein geiriau annoeth; methu yn ein meddyliau hunanol. Mewn geiriau eraill, methu bod yn berffaith. Pob un ohonom, heb eithriad.

(Parhad ar dudalen 9)



... trwy'r Beibl **Y Deml**

Yn y drydedd erthygl ar themâu sydd yn rhedeg drwy'r Beibl, edrychwn ar bwysigrwydd y deml a mynediad i bresenoldeb Duw. Cyflwyniad yn unig a geir yma a bydd erthyglau ar themâu cysylltiedig, megis yr archoffeiriad a'r aberthau, yn dilyn yn y gyfres.

Er nad oes sôn am deml yng ngardd Eden, yno mae'n rhaid dechrau. Dyma lle y gwelid bywyd fel y bwriadwyd iddo fod. Dyma lle roedd Adda ac Efa ym mhresenoldeb Duw – nes iddynt wrthod ei awdurdod ac anufuddhau. Wedi hynny, fe'u caewyd hwy a'u disgynyddion allan o bresenoldeb Duw.

Ganrifoedd yn ddiweddarach, wedi i Dduw roi'r Deg Gorchymyn a deddfau eraill i Moses, mae pobl Dduw yn addo ufuddhau. Maent yn ôl dan awdurdod Duw, ac yn barod i ddod i'w bresenoldeb unwaith

eto. Yn ail hanner llyfr Exodus darllenwn am gyfarwyddiadau i adeiladu 'tabernacl' – sef pabell lle y byddai Duw yn bresennol gyda'i bobl wrth iddynt deithio o'r Aifft i'r wlad yr oedd Duw wedi'i haddo iddynt. Dywedir bod 'gogoniant yr Arglwydd yn llenwi'r tabernacl' ac yno, meddai Duw, 'byddaf yn cyfarfod â thi.'

Wedi i Solomon ddilyn Dafydd fel brenin, caiff teml ei hadeiladu, ac ynddi mae arch y cyfamod, yn dynodi fod pobl Dduw yn derbyn ei ddeddfau a'i awdurdod. Dyma binacl yr Hen Destament.

Ond wedi hynny daw anufudddod, rhannu, dinistr a barn. Mae llyfr Eseciel yn dechrau â gweledigaeth o ogoniant Duw yn gadael y deml. Gadawyd y deml yn adfail gan y Babyloniaid wrth iddynt goncro Jwda yn 597 C.C. Er hynny, mae'r llyfr yn gorffen â gobaith

am deml well a Duw yn bresennol ynddi, ac afon sy'n rhoi bywyd yn llifo ohoni.

Wedi i Persia goncro Babylon, daw nifer fach o'r bobl yn ôl i'w gwlad ac adeiledir teml newydd dan arweiniad Esra a Nehemeia. Ond wylo a wnaeth y rhai a gofiai'r hen deml fawr, wych. Gwyddent nad dyma'r deml y proffwydodd Eseciel amdani.

Awn ymlaen i'r Testament Newydd a phennod gyntaf Efengyl Ioan: 'Daeth y gair yn gnawd a phreswyllo (neu, o gyfieithu'n fwy llythrennol – "tabernaclu") yn ein plith.' Mae Duw yn bresennol yn ein byd, fel dyn. Yn yr ail bennod, wedi i Iesu daflu masnachwyr allan o'r deml, caiff ei herio gan rai o'r Iddewon i ddangos pa awdurdod sydd ganddo i wneud hyn. Ateb Iesu yw 'Dinistriwch y deml hon, ac mewn tridiau fe'i codaf hi.' Mae'r Iddewon yn credu ei fod yn cyfeirio at yr adeilad, ond mae Ioan yn egluro mai 'sôn yr oedd ef am deml ei gorff.' Byddent yn croeshoelio Iesu ond o fewn tridiau byddai'n atgyfodi. Trwy ei aberth ef yn unig y gallwn ddod i bresenoldeb Duw; nid lleoliad

*'Trwy ei aberth ef
yn unig y gallwn
ddod i bresenoldeb
Duw; nid lleoliad
sy'n cyfrif bellach.'*

sy'n cyfrif bellach. Byddai'r adeilad yn adfail erbyn 70 O.C. ond mae Iesu wedi esgyn i'r nef ac yn rheoli am byth.

'Y mae amser yn dod' meddai Iesu wrth y wraig wrth y ffynnon 'pan na fyddwch yn addoli'r Tad ar y mynydd hwn nac yn Jeriwsalem'. Mae'r cyfeiriad at weledigaeth Eseciel yn amlwg yng ngeiriau Iesu yn y deml: 'Pwy bynnag sy'n sychedig, deued ataf fi ac yfed. Allan o'r sawl sy'n credu ynof fi, fel y dywedodd yr Ysgrythur, y bydd ffrydiau o ddŵr bywiol yn llifo.' Ef yw'r deml a'r dŵr yw'r Ysbryd a roddir i bawb sy'n ymddiried yno.

Mae Iesu Grist wedi esgyn i'r nef ond mae Duw yn dal i breswyllo yn y byd, nid mewn adeilad sanctaidd ond trwy'r Ysbryd Glân, mewn pobl sanctaidd. Meddai Paul am y Crist-

ion: ‘... oni wyddoch fod eich corff yn deml i’r Ysbryd Glân sydd yn-och,’ ac am gymuned o Gristnogion: ‘Yr ydych wedi eich adeiladu ar sylfaen yr apostolion a’r proffwydi, a’r congflaen yw Crist Iesu ei hun. Ynddo ef y mae’r adeilad cyfan yn cyd-gloi yn ei gilydd ac yn codi’n deml sanctaidd yn yr Arglwydd.’

Yn llyfr olaf y Beibl mae Ioan yn disgrifio nef a daear newydd fel dinas betryal – Jeriwsalem newydd. Mae’r ddinas yn 1,500 milltir sgwâr, maint y byd cyfan yn ôl yr hyn a wyddai Ioan a’i gyfoeswyr. Mae’r pwynt yn amlwg: yn y deml, un dyn yn unig, sef yr archoffeiriad, a allai fynd i mewn i’r Cysegr lle’r oedd Duw yn bresennol, a hynny unwaith y flwyddyn. Ond mae’r cyfan oll o greadigaeth newydd Duw yn deml:

‘A theml ni welais ynnddi, oherwydd ei theml hi yw’r Arglwydd Dduw, yr Hollalluog, a’r Oen... “Wele, y mae preswylfa Duw gyda’r ddynoliaeth; bydd ef yn preswyllo gyda hwy, byddant hwy yn bobloedd iddo ef, a bydd Duw ei hun gyda hwy, yn Dduw iddynt.”’

Dewi George

Y Deml trwy’r Beibl: rhai adnodau allweddol

- *Genesis 3: 8, 24*
- *Exodus 25 - 40*
- *1 Brenhinoedd 5 - 9*
- *2 Brenhinoedd 25*
- *Eseciel 10 a 40-48*
- *Esra 3*
- *Ioan 2: 19-21*
- *Ioan 4: 20-23*
- *1 Cor. 6: 19-20*
- *Effesiaid 2: 20-21*
- *1 Pedr 2: 4-5*
- *Datguddiad 21*

Bywyd Coleg

Elain Llwyd

Gan mai dim ond pellter o ddwy filltir rhwng ein cartre yng Nghomins-coch a Neuadd Pantycelyn y symudodd fy mrawd wrth fynd i'r Brifysgol, roedd ymfudo i'r ddinas fawr ddrwg yn gam mawr i mi, yn ferch ddeunaw mlwydd oed. Ar ôl i'r teulu fy ngadael yn Neuadd Senghennydd gyda'r mynydd o fagiau a bocsys, daeth y ffaith mai Caerdydd fyddai fy nghartref am y tair blynedd nesaf yn realiti am y tro cyntaf. Wrth gwrs, nid oedd Caerdydd yn lle anghyfarwydd i mi; ond profiad hollol wahanol oedd byw yng nghanol Cathays o'i gymharu ag ymweld â'r teulu estynedig yn yr Eglwys Newydd a Phen-y-lan bob hanner tymor.

Credaf yn gryf fod bywyd myfyriwr yma yng Nghaerdydd yn brofiad gwahanol i bawb. Er mai dim ond tymor y llwyddais i bara yn Neuadd Senghennydd, mae gen i atgofion melys iawn o'r amser hwnnw. I mi, roedd agosatrwydd a chwmpeni'r gymuned Gymraeg yno yn gymorth, yn enwedig yn

ystod yr wythnosau cyntaf rheini wrth geisio creu cartref newydd. Er mai un o 30,000 o fyfyrwyr oeddwn i yn y brifddinas, ymhen dim teimlais yn rhan o gymuned glòs. Dysgais lawer o sgiliau newydd – siopa yn bennaf; a dysgais wers bwysig hefyd, sef nad oedd gen i ddim diddordeb mewn Pensaernïaeth, y pwnc y deuthum yma i'w astudio! Penderfyniad anodd oedd gadael fy nghwrs a'r brifddinas ar ôl tymor yn unig, a rhan o'r rheswm am hynny oedd fy mod wedi dod i fwynhau fy mywyd yng Nghaerdydd gymaint – cinio dydd Sul Mam-gu, triapiau i'r Bae, Ikea, Clwb Ifor Bach, Winter Wonderland, ac wrth gwrs fy ffrindiau newydd.

Yn ystod fy ail mlwyddyn yn y brifysgol, daeth yr Eglwys Efengylaidd yn rhan bwysig o'm bywyd. Deuthum yn Gristion yn fy arddegau cynnar, felly wrth ddod i'r coleg gwyddwn y byddai mynychu capel yn hanfodol i mi. Er hynny, yn ystod y tymor cyntaf hwnnw yn Senghennydd

canolbwyntiaid yn ormodol ar fynychu llawer o gapeli gwahanol yn hytrach na cheisio ymgartrefi mewn un. Roeddwn yn credu mai rhan o symud oddi cartref oedd archwilio a darganfod drosod fy hun ymhle y byddwn am addoli, a thra bod hynny'n rhannol wir, wrth edrych yn ôl, y cwbl yr oeddwn yn ei wneud mewn gwirionedd oedd gohirio ymgartrefu mewn un man.

Er mai dim ond dau ddrws i ffwrdd o'r capel rydw i'n byw, doedd diogi ddim yn ffactor wrth benderfynu mynychu'r Eglwys Efengylaidd yn rheolaidd – wel, roedd y lleoliad yn fonws wrth gwrs! I mi, roedd ymroi i fywyd

yr eglwys, a bod yn ymwybodol fy mod yn rhan o'r gymdeithas yno, yn fendith aruthrol imi.

Dydy bod yn Gristion mewn coleg neu brifysgol ddim yn brofiad hawdd. Yn ystod tair blynedd ei gwrs daw Cristion ar draws aneirif demtasiynau – ac yn aml teimlaf yn wan a blinedig yn ysbrydol. Cymorth yw cofio am Hebreaid 4:14-16: 'Canys nid archoffeiriad heb allu cyd-ddioddef â'n gwendidau sydd gennym, ond un sydd wedi ei demtio ym mhob peth, yn yr un modd â ni, ac eto heb bechod' (ad.15). Nid Gwaredwr dieithr, amhersonol sydd gennym, ond un a ddaeth i'r byd hwn yn ddyn, un sy'n deall



ac yn cydymdeimlo â'n problemau beunyddiol. Mae'n Dduw mewn-fodol, ac yn yr amseroedd anodd hynny mae'r ffaith fy mod yn gallu troi ato a phrofi ei gariad yn hwb aruthrol.

Ond wrth gwrs, ar ochr arall y geiniog, un o fendithion bywyd Cristion yn y coleg yw'r gymdeithas werthfawr â Christnogion eraill. Yma yng Nghaerdydd, mae'r Undeb Cristnogol Cymraeg yn mynd o nerth i nerth, ac i Dduw y mae'r diolch am hynny. Rydym yn cwrdd yn wythnosol, ac ar hyn o bryd yn cynnal cwrs Darganfod Cristnogaeth. Ni allaf orbwysleisio pwysigrwydd cymdeithas y saint i Gristion o fyfyrwr. Mae'r fframwaith o ofal sydd yn yr Undeb Cristnogol yn golygu fy mod dan ofal Cristnogion eraill, ac mae hynny'n gysur ac yn anogaeth werthfawr.

Gall bywyd prifysgol fod yn llawn bendithion i Gristion, ond gall hefyd fod yn anodd ac yn heriol. Am y rheswm hwnnw, rwyf yn erfyn arnoch – ble bynnag yr ydych – i weddio dros y myfyrwyr yn eich capel chwi.

(Parhad o dudalen 3)

A ddwedes i 'heb eithriad'? Wel, dyw hynny ddim yn wir. Mae yna un eithriad. Un dyn a allai wynebu unrhyw arolwg heb yr arlliw lleiaf o fethiant. Dyn a wnaeth fyw bywyd perfffaith ar y ddaear yma. Dim un gair angharedig, dim un meddwl hunanol a dim un weithred ddrwg. Dyn a oedd yn fodlon marw ar groes dros y ddynoliaeth er mwyn adfer perthynas rhwng dyn a Duw. Dyn a oedd yn Fab Duw. Yr Arglwydd Iesu Grist.

A dyna gysur. Y cyfle i ddibynnu ar rywun sydd byth yn methu. Y cyfle i gael maddeuant am ein pechod gan rywun sydd â'r pŵer a'r awdurdod i wneud hynny. Y cyfle i gael heddwch yn ein cydwybod a'n calon.

Mae Gareth Jenkins i'w weld yn foi didwyll, brwdfrydig a wnaeth bopeth o fewn ei allu i sicrhau llwyddiant i'n tîm rygbi cenedlaethol. Ond meidrol yw Gareth Jenkins, yr un fath yn union â phob un ohonom. Yn wyneb ein methiant ni, diolch byth am Dduw sydd byth yn methu.

Holi Hwn a Hon

Jenny

Mae Jenny, sy'n hynu o Abertawe, yn ei hail flwyddyn ym Mhrifysgol Caerdydd yn astudio Ffisiotherapi.

Sut y dest ti'n Gristion?

Dwi wastad yn cael fy nhemtio i feddwl bod yr hanes am sut des i'n Gristion yn eitha *boring* o'i gymharu â lot o bobl. Doedd dim goleuadau yn fflachio, dim datguddiad mawr neu *near death experience*... ond na, doedd e ddim yn boring! Mae Duw wedi fy achub i o'm pechod, ac wedi dod â fi i berthynas dragwyddol gyda fe. Dyna'r peth mwya *exciting* erioed! Sai'n cofio'r dyddiad, na digwyddiad penodol wnaeth arwain fi at ddod yn Gristion – digwyddodd dros gyfnod o rai blynyddoedd pan on i tua 10 mlwydd oed. Gwnaeth Duw weithio ynof i yn bennaf trwy fy ngheulu. Tyfais i lan yn gyfarwydd â'r Beibl, a'r neges Gristnogol gan fod fy rhieni'n Gristnogion. Creodd eu tystiolaeth nhw a'm chwaer dipyn o argraff arna i. Pan feddyddiwyd fy chwaer ces i fy herio

am fy mherthynas i â Duw trwy ei gweld hi'n sefyll lan a siarad am Iesu o flaen cant o bobol. Ar y pryd wnes i ddim deall o gwbwl pam y byddai unrhyw un yn rhoi ei hunan trwy brofiad fel'na er mwyn siarad am Iesu! Ond dangosodd Duw i mi wirionedd yr Efengyl, bod Iesu Grist wedi marw drosta i a thrwy hynny greu ffordd i gael perthynas gyda Duw. Gweddïais y noson honno i Dduw fy achub i, ond roedd hi'n sbel ar ôl hynny nes i mi deimlo sicrwydd fy mod i'n Gristion. Ers hynny mae Duw wedi parhau i weithio ynof i, ac er fy mod i'n dal i bechu, rwy'n sicr o faddeuant ac o'r nefoedd sy'n aros i fi.

Caerdydd neu Abertawe - pr'un yw'r gorau?!

Abertawe. Heb amheuaeth. (Sori!) Does dim byd yng Nghaerdydd sy'n gallu cymharu â'r Mwmbwls a Gŵyr!

Beth yw dy hoff emyn?

'Beneath the cross of Jesus'. Emyn sy'n sôn am y groes yw fy hoff

Evans

emyn i, a sai'n gallu ei ganu fe heb gael fy atgoffa am beth wnaeth Iesu drosta i a beth mae hwnna'n ei olygu i 'mywyd i nawr. Mae'n creu'r ddelwedd o Iesu gyda 'two arms outstretched to save, like a watchman set to guard the way from that eternal grave'. Mae'r ddelwedd yna mor bwerus o Iesu yn sefyll i'n hachub ni rhag marwolaeth. Mae'r pennill olaf yn anhygoel:

*I take, O cross, thy shadow,
For my abiding place;
I ask no other sunshine than
The sunshine of His face;
Content to let the world go by,
To know no gain nor loss-*

*My sinful self my only shame,
My glory all – the cross.*

Buest ti yn Lithuania dros yr Haf; beth oeddet ti'n ei wneud yno?

Bues i yn Lithuania am ddeg diwrnod dros yr haf gyda mudiad UCCF, yn helpu mewn gwersyll i fyfyrwyr. Doedd e ddim yn gwersyll dan do, cynnes, sych, ond gwersyll awyr-agored gyda llun fel cawod a tai bach . . . ym, diddorol! Roedd dau brif bwriad i'r gwersyll. Y cyntaf oedd i roi cyfle i fyfyrwyr ddysgu ac ymarfer eu Saesneg gyda ni. Yr ail fwriad oedd ceisio rhannu ein ffydd ni gyda nhw trwy bregethu, gwneud astudiaethau Beiblaidd, a threulio amser yn siarad a thrafod gyda nhw. Ces i amser gret a bydden i'n argymhell unrhyw un i wneud yr un peth os cewch chi'r cyfle!



Trobwyntiau: A

Leri George

Ydych chi'n teimlo bod y Beibl yn llyfr amherthnasol yn ein hoes ni, yn llyfr sydd â fawr ddim i'w wneud â'ch bywyd o ddydd i ddydd? Neu efallai eich bod chi wastad wedi eisiau deall neges y Beibl: oes mwy iddo na chyfres o hanesion am y genedl Iddewig a rhestrau o orchmynion? Beth bynnag eich barn, hoffwn gymeradwyo Turning Points gan Vaughan Roberts fel cyflwyniad hygyrch a darllenadwy i unrhyw un sy'n chwilfyddig am y ffydd Gristnogol.

Ar ddechrau'r llyfr cawn ein cyfeirio at ddyn o'r enw Jonathan Gabay a gyhoeddodd lyfr o'r enw *The Meaning of Life* ym 1995. Cynnwys hwnnw yw ymatebion nifer o bobl enwog i'r cwestiwn 'Beth yw'r pwynt? Oes yna ystyr i fywyd?' Trodd Gabay at y prosiect hwn yn dilyn cyfnod yn ei fywyd a ddisgrifir ganddo fel 'chaos, absolute darkest desolation. I felt literally on the edge of

a cliff'. Yn anffodus, yr hyn sy'n dod i'r amlwg yn fuan wrth ddarllen y llyfr, yn ôl Vaughan Roberts, yw nad oes gan rhan fwyaf o'r selebs y syniad lleiaf am beth i'w gynnig fel ateb. Mewn ffordd, cawn yn Turning Points ymateb Vaughan Roberts i gwestiwn tyngedfennol Gabay.


Er mwyn ateb y cwestiwn hwnnw, mae'r awdur yn troi at y Beibl ac yn cyflwyno i'r darlennydd gyfres o drobwyntiau pwysig (er enghraifft: Duw'n creu'r byd; Duw'n ei ddatguddio'i hun i'r genedl Iddewig; geni, marw ac atgyfod-iad Iesu Grist). Trwy ystyried arwyddocâd y digwyddiadau hyn, mae Vaughan Roberts yn graddol ychwanegu at ein dealltwriaeth o'r hyn sydd gan y Beibl i'w ddweud amdanom fel unigolion: beth yw ein pwrpas ni? Pam ydyn ni'n methu o hyd yn ein perthynas â phobl a chyda Duw? Mewn beth gallwn ni roi ein gobaith?

dolygiad

Dyma lyfr sy'n cyfarch unigolyn sy'n chwilio o ddifrif am atebion. Dydy'r awdur ddim yn nawddoglyd, nac ychwaith yn osgoi cwestiynau anodd. Ac felly cawn drafodaeth ar gwestiynau fel: sut alla' i fod yn sicr bod Cristnogaeth yn gywir o ystyried yr holl grefyddau eraill sy'n bodoli? A allwn ni ymddiried yn llwyr yn y cofnodion am fywyd Iesu Grist sydd yn y Beibl? A oes tystiolaeth hanesyddol ar gael sy'n profi fod yr atgyfodiad wedi digwydd?

Mae Vaughan Roberts yn ysgrifennu mewn ffordd ffres a darllenadwy. Chewch chi ddim llawer o jargon yma, ac er bod y llyfr hwn yn addas i rywun sydd heb lawer o wybodaeth am y Beibl, mae yma ddigon i'w ystyried a chnoi cil arno i ddarllenydd sydd eisoes yn gwybod tipyn am Gristnogaeth.

Llyfr rhwydd i'w ddarllen felly. Ac eto, na, dyw e ddim! Mae *Turning Points* yn gofyn inni ystyried ein bywydau ni dro ar



Turning Points
Vaughan Roberts
(Authentic Media: 2003)
£6.00

ôl tro – mae'n ein hanesmwytho ac yn gofyn am ymateb. Ond mae hefyd yn ein cyflwyno i berson arbennig o atyniadol, ac i obaith sydd y tu hwnt i'n breuddwydion. Prynwch, darllenwch!

Newyddion

Ers i'r rhifyn diwethaf o Cwm-pawd ymddangos, bu gennym reswm i ddiolch fel eglwys am nifer o bethau. Derbyniwyd Jenny Evans yn aelod ym mis Medi ac fe'i chroesawn yn llawen i deulu'r eglwys. Hefyd, mae Jonathan Glanfield bellach wedi derbyn a chychwyn ar swydd newydd yma yng Nghaerdydd. Llongyfarchiadau Jon, a dymunwn bob bendith a llwyddiant i ti ac Eleri wrth i chi baratoi at y briodas mis Ionawr.

Ganwyd dau fabi bach arall i aelodau o'r eglwys yn ystod mis Medi: Esther Angharad i Chris ac Angharad Woolley (chwaer i Dafydd a Tomos), ac Emrys Siôn i Steve a Lois Bowen (brawd i Fflur a Morus). Edrychwn ymlaen, fel eglwys, i ddod i 'nabod y ddau yn well.

Rydym wedi profi pethau trist hefyd yn y misoedd diwethaf, gyda mwy nag un yn colli aelod o'r teulu. Parhawn i gofio am Angharad Woolley, a gollodd dad-cu, a Gwen Emyr, a gollodd ei thad yn yr haf. Bu farw Derek Swann ar ddechrau'r mis hwn ar

ôl cyfnod o salwch ac rydym yn cydymdeimlo'n fawr â'i wraig Ceinwen. Bu'r ddau yn ymwelwyr cyson â'r eglwys dros y blynydd-oedd.

Gweddian y bydd Gwern Pen-nar yn cryfhau'n gyflym yn dilyn ei lawdriniaeth ym Mryste, a dymunwn nerth i Geinor ac Owain yn y cyfnod yma o adfer i Gwern bach.

Llongyfarchiadau i Lewis Roderick, sydd wedi cael ei dderbyn i ddechrau astudio'r cwrs Cornhill, yn Llundain. Bydd yn dechrau mis Medi nesaf. Byddwn yn gweld ei eisiau yn fawr yn yr eglwys.

Yr Eglwys Newydd

Cynhaliwyd oedfa bregethu yn yr Eglwys Newydd ar ddechrau mis Medi a mis Tachwedd (yn Eglwys Tabernacl). Bwriadwn gynnal gwasanaeth arall yno ar Rhagfyr 2il, am 6.30pm.

Cyfarfodydd Nadolig

Rhag 9; Noson Garolau: 6.00pm
Rhag 15; Parti Nadolig: 2.30pm
Rhag 16: Cyfarfod Teuluol: 10.00am

I'r Dyddiadur

Yn ystod yr wythnos...

Clwb Hapus Awr | nos Lun | 5.30 - 6.30pm

Cyfarfod Gweddi | nos Fawrth | 7.30pm

Paned a Sgwrs | bob yn ail fore Mawrth | 10.00am

Cylch y Plant Bach | bore Gwener | 10.00 - 11.30am

Clwb y Bobl Ifainc | nos Wener | 7.00pm

Cynhelir y gweithgareddau uchod yn adeilad yr eglwys

Ar ddydd Sul...

Oedfaon am 10am a 6pm yn adeilad yr eglwys ar gornel Stryd Rhymni/ Stryd Harriet, Cathays, Caerdydd. Mae paned yn dilyn pob oedfa, a chynhelir yr Ysgol Sul yn ystod tymhorau'r ysgol (11.45 – 12.30am).

<i>Tachwedd</i>	<i>4</i>	<i>Gwynn Williams / Lewis Roderick</i>
	<i>11</i>	<i>Gwynn Williams / Lewis Roderick</i>
	<i>18</i>	<i>Gwynn Williams</i>
	<i>25</i>	<i>Noel Gibbard</i>

<i>Rhagfyr</i>	<i>2</i>	<i>Gwynn Williams / Lewis Roderick</i>
	<i>9</i>	<i>Gwynn Williams / Noson Garolau</i>
	<i>16</i>	<i>Cyfarfod Teuluol / Gwynn Williams</i>
	<i>23</i>	<i>Gwynn Williams</i>
	<i>25</i>	<i>Gwasanaeth Bore Nadolig</i>

Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd
Stryd Rhymni
Cathays
Caerdydd